

## OWEN, JOHN (1616 - 1683), diwinydd Piwritanaidd (Annibynnwr)

**Enw:** John Owen  
**Dyddiad geni:** 1616  
**Dyddiad marw:** 1683  
**Rhiant:** Henry Owen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Gawedigaeth:** diwinydd Piwritanaidd (Annibynnwr)  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

'Gyda Baxter a Howe, saif ar flaen y diwinyddion Piwritanaidd'. Ganwyd yn 1616, a bu farw 24 Awst 1683. Adroddir ei yrfa'n llawn yn y D.N.B., ond nid oes a fynno hi ddim â Chymru, ond yn yr ystyr mai ar weithiau diwinyddol John Owen y magwyd cenedlaethau o bregethwyd Calfinaidd enwocaf Cymru. Ond yr oedd gwaed Cymreig ynddo. Mab oedd ef i Henry Owen, ficer Stadhampton (swydd Rhydychen), wyr felly i Griffith Owen o Dal-y-bont a Pheniarth (Llanegryn, Meirion), a gor-wyr i'r barwn Lewis Owen. Yr oedd hefyd yn perthyn i Hugh Owen (1639-1700) o Fronclydwr - yn gefnder cyfan i'w fam (gweler J. E. Griffith, Pedigrees, 323). Brodiwyd braidd yn ffansiol ar y ffaith hon gan rai a fyn mai dylanwad personol ei 'ewythr' a droes Hugh Owen yn Ymneilltuwr, yn ystod ei breswyl yn Rhydychen. Eithr nad aeth Hugh Owen yno cyn canol 1660, pan oedd John Owen eisoes wedi ymado â'r lle. Nid oes yn wir mo'r praw lleiaf fod unrhyw gyfathrach rhwng y diwinydd mawr a'i deulu yng Nghymru. Eto, yn ddiamau, fe wyddai Ymneilltuwr yng Nghymru am y berthynas - cyfeirir ati gan Henry Maurice.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Delweddau

John Riley, James Caldwell, [John Owen D.D.](#)

Edward Scriven, [John Owen D.D.](#)

John Whessell, [Dr. John Owen](#)

R. Cooper, George Vertue, [John Owen](#)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [2480434](#)

Wikidata: [Q268474](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>




Jenkins, R. T., (1953). OWEN, JOHN (1616 - 1683), diwinydd Piwritanaidd (Annibynnwr). Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-Owen-JOH-1616>

□ Copiau'r  
clipWrdd

Preifatrwydd a Chwcius  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodder gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government